**Diwrnod arall yn dost yn y gwely**

Fe'm lladdwyd, fel gwair  yr ail
gynhaeaf, a'm gosod i orffwys  ar fy
ngwely, tra fo peiriant salwch  yn
rhuo llofruddiaeth

dau gae i ffwrdd. Mae'r ysbryd
gorweddol yn hanner effro i
siffrwd creaduriaid y meddwl.
Mae'r boda a'r brain

uwchben yn barod. Chi nerfau'r
dychymyg, rhof fy nghorff  rhyngoch chi
a'r rhai rheibus ond rhedwch tra medrwch,
da chi, am loches

y cloddiau – na, nid fi, ond y gerdd! –
mae'n amser: daw'r barcud i hela, a
chyn hir, fe ddychwel y baler  i
ddechrau o ddifri ar y cywain.

Gwyneth Lewis